

Cwestiynau Cyffredin

Rydym wedi cael nifer o gwestiynau ynglŷn â Pharth Dysgu Torfaen. Bydd y rhestr hon yn cael ei diweddaru yn aml ac ychwanegir ati yn gyson, felly cofiwch ei gwirio am ragor o ddiweddariadau.

C) Unwaith y bydd Parth Dysgu Torfaen yn agor, a fydd Campws Pont-y-pŵl yn cau?

A) Bydd Campws Pont-y-pŵl yn cau Mehefin 2020 i wneud lle i'n Campws newydd o'r radd flaenaf yng nghanol Cwibrân. Mae'r holl gyrsiau sydd ar gael ym Mhont-y-pŵl ar hyn o bryd yn symud i'r Campws newydd sbon yng Nghwibrân.

Sut ydw i'n gwneud cais?

C: Rwyf ym Mlwyddyn 11 ar hyn o bryd, sut ydw i'n gwneud cais am gwrs ym Mharth Dysgu Torfaen?

A: Gallwch wneud cais drwy'r wefan neu, os ydych yn mynychu ysgol yn Nhorfaen, gallwch siarad ag aelod o staff Coleg Gwent yn ystod digwyddiadau a gweithgareddau pontio. <link to simplified Roadmap graphic>

C: Sut ydw i'n dysgu mwy am Barth Dysgu Torfaen?

A: Dewch draw i Ddigwyddiad Agored ar Gampws Pont-y-pŵl a siaradwch â'n staff a fydd yn symud i'r ganolfan newydd. Rydym hefyd yn mynychu holl ddigwyddiadau Gyrfaeodd a Gwybodaeth yn Ysgolion Torfaen felly gallwch gyfarfod â ni yno, neu anfon [e-bost atom](#) i archebu apwyntiad i ddod i gampws Pont-y-pŵl a siarad ag aelod o'n staff.

Gallwch ddysgu mwy ynglŷn â'r holl gyrsiau sydd ar gael yn PDT drwy fynychu un o'n Digwyddiadau Agored.

Digwyddiadau Agored:

- [Dydd Mercher 5 Chwefror 2020 17:00 - 19:30](#)
- Dydd Sadwrn 21 Mawrth 2020 10:00 - 13:00
- Dydd Mercher 29 Ebrill 2020 17:00 - 19:30
- Dydd Mawrth 23 Mehefin 2020 17:00 - 19:30

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [canllaw i adawyr Ysgol](#)



Cynnig pynciau

C: Pa lefelau A allaf i eu hastudio ym Mharth Dysgu Torfaen?

Mae'r dewis yn eang - gallwch ddewis o'r 26 pwnc lefel A hyn, sy'n yn amrywio o'r Gwyddorau i Fathemateg, Saesneg, Sbaeneg, y Gyfraith, TGCh a Ffotograffiaeth.

C: Pa bynciau galwedigaethol/cyrsiau BTEC sydd ar gael ym Mharth Dysgu Torfaen?

Mae rhywbeth at ddant pawb yma gyda 16 o gyrsiau galwedigaethol yn amrywio o Astudiaethau Busnes i Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

C: Rwyf ym mlwyddyn 12 mewn ysgol yn Nhorfaen, sut byddaf yn symud i Barth Dysgu Torfaen?

A: Rydym wrth ein bodd y byddwch yn ymuno â ni ym Mharth Dysgu Torfaen. Nid oes angen gwneud cais gan y bydd trosglwyddiad di-dor o'ch ysgol i'r coleg. Mae staff Coleg Gwent hefyd yn ymweld â'ch ysgol yn rheolaidd i'ch cefnogi chi drwy'r broses o newid safleoedd.

C: Rwy'n astudio cyfuniad o lefelau A a chyrsiau BTEC ym Mlwyddyn 12 yn yr ysgol, a fyddaf i yn gallu parhau â'r rhain ym mlwyddyn 13 ym Mharth Dysgu Torfaen?

A: Bydd holl ddysgwyr cyfredol Mlwyddyn 12 yn Nhorfaen yn parhau â'u cyfuniad o lefelau A a chyrsiau BTEC ym Mlwyddyn 13 ym Mharth Dysgu Torfaen ond yn y dyfodol, ni fydd y cyfuniad hwn ar gael. Bydd angen i ddysgwyr ddewis o'r matrices cwricwlwm safonol.

C: Rwyf ym mlwyddyn 12 mewn ysgol yn Nhorfaen, sut byddaf yn symud i Barth Dysgu Torfaen?

A: Rydych eisoes ar y rhestr i barhau â'ch astudiaethau ym Mharth Dysgu Torfaen, ni fydd angen i chi wneud cais ac mae staff Coleg Gwent yn ymweld â'ch ysgol yn rheolaidd i'ch cefnogi chi drwy'r broses o newid safleoedd.

C: Beth sy'n digwydd ar ôl i mi wneud cais?

A: I bawb heblaw am ddysgwyr Blwyddyn 12 presennol Torfaen, unwaith y byddwch yn gwneud cais byddwn yn eich gwahodd chi i ddod i Gampws Pont-y-pŵl i ddysgu mwy ynglŷn â'r cwrs a'r pwnc/pynciau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt.

Byddwn yn siarad gyda chi ynglŷn â'ch nodau gyrfa, cynnwys y cwrs a sawl awr a dydd y bydd gofyn i chi fynychu i gyflawni eich cymhwyster dewisol.

Ar ddiwedd y cyfarfod, byddwn yn cynnig cwrs i chi (fel rheol, mae hwn yn gynnig amodol ar gyflawni'r cymwysterau mynediad gofynnol).

Yna byddwn yn anfon dyddiad ac amser ymrestru atoch ar gyfer Awst 2020.

C. Beth sy'n digwydd os nad ydych yn cyflawni'r graddau sydd eu hangen ar gyfer y cwrs?

A: Os nad ydych yn cyflawni'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer eich cwrs dewisol, dewch i'ch sesiwn ymrestru yn ôl y bwriad a rhowch wybod i aelod o staff. Bydd ein tîm Cefnogi Dysgwyr yn gallu'ch helpu a chynnig cwrs arall i chi i gefnogi'ch nodau gyrfa.

C: Pwy yw pennaeth Parth Dysgu Torfaen?

A: Pennaeth Coleg Gwent yw Guy Lacey, ac ef sy'n gyfrifol am y Coleg cyfan. Mae strwythur Rheolaeth y Coleg yn wahanol i Ysgolion. Yn ogystal, bydd gennym dîm rheoli ymroddedig wedi'i leoli ar eich Campws i warchod ein dysgwyr sy'n astudio yno. Y rhain yw:



Pennaeth Astudiaethau Academaidd:
Patrick Seale



Pennaeth Astudiaethau Galwedigaethol:
Maria Johnson



Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr:
Siân Hughes



Teithio a Thrafnidiaeth

C: O ran tocynnau bws, rwy'n talu £40 y tymor gan fy mod dros 19 oed, a fydd hyn yn parhau?

A: I unigolion dros 19 oed, y gost yw £40 y tymor oni bai eich bod yn gymwys am grant gan Gynulliad Cymru yn ogystal â Chronfa Ariannol Wrth Gefn.

Os ydych yn 16-18 oed, mae angen i chi wneud cais i'ch cyngor lleol (oni bai am ddysgwyr yn Sir Fynwy a fydd angen gwneud cais yn uniongyrchol atom ni yn Coleg Gwent).

C: Sut bydd bysiau yn cael eu trefnu o Drefynwy gan nad ydym yn cael cymhorthdal; ai tocyn bws Coleg Gwent fydd yn cael ei ddefnyddio o hyd?

A: Bydd y tocyn teithio yn gweithio yn yr un modd ag y gwnâi nawr.

C: Beth yw'r ffordd orau i mi deithio i Barth Dysgu Torfaen?

A: Gyda'i leoliad canolog arbennig yng Nghwmbrân ger Morrisons, a chysylltiadau gwych i drafnidiaeth gyhoeddus, gallwch deithio yno ar fws neu drên, gyda phrisiau gostyngol ar gael.

Fy Ngherdyn Teithio 16-21:

Cynllun teithio am bris gostyngol i bobl 16-21 oed sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i chi gael Fy Ngherdyn Teithio i sicrhau fod eich cerdyn bws Coleg Gwent yn ddilys.

Gwnewch gais yn www.mytravelpass.gov.wales neu ffoniwch [03002002233](tel:03002002233)

Tocyn Rheilffordd 16-25

Gall unrhyw un sydd rhwng 16 a 25 oed, yn ogystal â myfyrwyr mewn astudiaeth lawn amser, wneud cais am Docyn Rheilffordd 16-25. Cewch 1/3 oddi ar brisiau teithiau!

Gwnewch gais yn www.16-25railcard.co.uk neu am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01495 333777 a gofynnwch am gael siarad â'r tîm Recriwtio Myfyrwyr.

Cymorth Ariannol

C: Sut ydw i'n canfod pa gymorth ariannol sydd ar gael i mi?

A: Yn dibynnu ar eich oed a'ch sefyllfa ariannol, efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn mwy o gymorth nag y credwch. Gallwch fod yn gymwys i dderbyn y cyllid canlynol:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC)
- Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)
- Ymddiriedolaeth Goffa David Davies
- Cronfa Cymorth Dewisol (DAF) Cymru
- Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Tywysog

Mae'r manylion llawn i'w cael yn [am y cymorth sydd ar gael](#) neu am ragor o wybodaeth, ffoniwch [01495 333777](tel:01495333777) a gofynnwch am gael siarad â'ch Campws dewisol.

Cyffredinol

C: A fydd y coleg yn barod ar amser a sut ydw i'n gwybod a fydd yn llwyddiannus ai peidio?

A: Yn ôl y contractwyr, rydym o flaen yr amserlen sy'n golygu y gallem gael mynediad at y Campws newydd yn gynt na'r dyddiad cwblhau disgwylidig sef Mehefin 2020.

Bydd Parth Dysgu Torfaen yn drydydd campws Coleg Gwent i gynnig lefelau A. Fel y cyfryw, bydd yn cael ei reoli yn yr un modd â holl ddarpariaeth lefel A yn Coleg Gwent, gan rannu arbenigedd a safonau ansawdd yr ydym wedi gweithio mor galed i'w cyflawni. Roedd ein cyfradd lwyddo yn wych yn Awst 2019, sef 98.5 y cant, gan ein sgorio'n uwch na chymharydd Cymru a'r DU am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gyda chyfradd lwyddo o 100% mewn 26 pwnc.

C: Pwy fydd fy nhiwtor a darlithydd ym Mharth Dysgu Torfaen?

A: Mae'r Coleg yn rhan o gylchred recriwtio a fydd, i ddechrau, yn cyhoeddi swyddi darlithio newydd yn fewnol i staff Coleg Gwent ac i'r tair ysgol bartner. Disgwylir y bydd y cam recriwtio cychwynnol hwn yn dod i ben Ionawr 2020.

C: Rwy'n bryderus iawn ynglŷn ag adleoli, a oes rhaid iddo ddigwydd?

A: Gwerthfawrogwn y gall y newidiadau hyn achosi poen a phryder felly rydym eisiau gweithio gyda chi i'ch helpu chi i ddeall eich opsiynau ac adleoli yn hyderus i ganolfan newydd i barhau â'ch astudiaethau yn y dyfodol.

Os oes gennych ragor o gwestiynau, [ebostiwch ni](#)